

# Cynnig ac Adroddiad: crynodeb

## y Grŵp Symud Ymlaen Medi 2020

Sefydlwyd y Grŵp Symud Ymlaen ym mis Hydref 2019 gan bedwar Cyfarfod Rhanbarth cyfansoddol (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De Cymru a De'r Gororau) Cyfarfod Crynwyr Cymru (MFW) i edrych ar ffyrdd o symleiddio strwythurau'r Crynwyr. Penodwyd dau gynrychiolydd o bob Cyfarfod Rhanbarthol ac o Gyfarfod Crynwyr Cymru a chynhwyswyd Ymddiriedolwr o bob corff.

Disgrifiwyd Amcanion y Grŵp Symud Ymlaen fel a ganlyn:-

*Ystyried pa newidiadau y gellid eu gwneud i'n galluogi i weithio'n well gyda'n gilydd yng Nghymru, hyrwyddo perthynas rhwng Cyfeillion a rhyddhau amser ac egni ar gyfer bywyd ysbrydol, ymestyn allan a thystio yn y byd.*

*Ymchwilio i ddewisiadau posib ar gyfer gweithio a chydweithredu'n fwy effeithiol Gallai'r rhain gynnwys rhannu cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr megis rheoli eiddo, a pholisiau'n ymwneud â chyfrifoldebau cyfreithiol.*

### Heriau sy'n wynebu Crynwyr yng Nghymru a'r Gororau

- Dod o hyd i Gyfeillion sy'n fodlon, yn abl ac yn gymwys i gynnig gwasanaeth yn enwedig fel Ymddiriedolwyr a Thrysoryddion
- Rheoli a chynnal a chadw ein portffolio eiddo helaeth
- Cynnydd yn y gofynion cydymffurfio mewn sawl maes ond yn enwedig ym maes cofnodi ac adrodd ariannol i'r Comisiwn Elusennau a'r gofynion a osodwyd gan y Banciau 'am resymau diogelwch'
- Y gofyniad am bolisiau caeth gan gynnwys Cydraddoldeb, Diogelu, Risg, Iechyd a Diogelwch a Diogelu Data

Mae angen lleihau'r baich gweinyddol.

### Cynnig

Mae ein Cynnig yn argymhell symleiddio ein strwythurau fel y gall Cyfarfodydd Rhanbarth a Lleol ganolbwytio ar feithrin yn ysbrydol ac ymestyn allan.

### Cyfuno'r pum elusen bresennol

Er mwyn cyflawni hyn rydym yn cynnig cyfuno'r pum elusen bresennol yn un elusen newydd. Byddai'r Ymddiriedolwyr yn cael eu henwebu gan y Cyfarfodydd Rhanbarth. Mae hyn yn apelio yn rhinwedd ei symleiddio oherwydd byddai'n lleihau nifer yr elusennau i un ond ar yr un pryd yn cadw'r strwythur presennol gyda phedwar Cyfarfod Rhanbarth

(ynghyd â'u Cyfarfodydd Lleol cyfansoddol) a byddai'n cynnwys cyfrifoldebau Cyfarfod Crynwyr Cymru. Byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarfodydd Rhanbarth ddirprwyo i'r corff newydd hwn yr elfen honno o'u cyfrifoldebau sy'n ymwneud â rhedeg elusen.

Byddai hyn yn lleihau nifer yr ymddiriedolwyr fyddai eu hangen o ryw 30 i gyn lleied â 12 effalai. Byddai hefyd yn symleiddio'r gwaith cofnodi ac adrodd ariannol yn sylweddol, a hynny'n ei dro yn golygu llai o waith i'r trysoryddion.

Byddai angen Cynllun Comisiwn Elusennau i alluogi cyfuno a throsglwyddo perchnogaeth ar asedau o'r Elusennau Cyfarfod Rhanbarth presennol i'r elusen newydd hon a byddai angen drafftio cynllun i'r Comisiwn Elusennau gyda chyngor gan Bwyllgor Siwardiaeth Cyfarfod Blynnyddol Prydain. Byddai'r Cyfarfodydd Rhanbarth yn parhau i fodoli, ond nid fel elusennau cofrestredig ar wahân mwyach. Byddai hyn yn lleihau nifer yr elusennau o bump i un ac yn bwysicaf oll byddai'n caniatáu i'r Cyfarfodydd Rhanbarth ganolbwytio ar eu prif waith, sef Meithrin yn Ysbrydol ac Ymestyn Allan.

Rydym yn deall bod y Comisiwn Elusennau'n awyddus i annog cyfuno o'r fath. Ni ddylem gredu am eiliad y bydd y broses yn un hawdd a chyflym a hyd yn oed os bydd Cyfarfod Crynwyr Cymru a'i bedwar Cyfarfod Rhanbarth cyfansoddol yn cytuno ar y ffordd hon ymlaen eleni bydd yn cymryd amser i ddatrys y cymhlethdodau sydd ynghlwm.

Gwelwn mai'r cam cyntaf yn unig yw hwn ac rydym yn argymhell penodi grŵp i symud y cynnig hwn ymlaen.

## Trefniant dros dro

Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cymryd amser ac rydym yn awgrymu ar gyfer y trieniwm nesaf fod pob Cyfarfod Rhanbarth yn penodi o leiaf dri ymddiriedolwr o blith eu haelodau eu hunain, a byddai un o'r rheini'n cael eu penodi hefyd yn Glerc i ymddiriedolwyr y Cyfarfod Rhanbarth. Byddai tri ymddiriedolwr arall yn cael eu hychwanegu at hyn, un o bob un o'r tri Chyfarfod Rhanbarth arall, fyddai'n rhoi i bob Cyfarfod Rhanbarth gorff ymddiriedolwyr o chwe aelod o leiaf ynghyd â thrysorydd.

Nid yw hyn yn golygu y byddai 24 o ymddiriedolwyr yn cael eu penodi ond mewn gwirionedd byddai lleiafswm o 12 unig a fyddai'n ffurfio grŵp a cyfunol fyddai'n gweithio gyda'i gilydd ar faterion yn ymwneud â phob un o'r pedwar Cyfarfod Rhanbarth megis adeiladau, cyllid a materion llywodraethu eraill megis polisiau. Byddai hyn yn galluogi ymddiriedolwyr i weithio gyda'i gilydd yn ystod y trieniwm nesaf, gan ddysgu am sefyllfa cyfarfodydd ar draws Cymru gyfan a'r Gororau. Rhaid pwysleisio mai dim ond cam dros dro yw hwn ar gyfer un trieniwm tra bydd yr elusen newydd yn cael ei sefydlu.

## Crynodeb o Argymhellion ar gyfer y Ffordd Ymlaen

1. Rydym yn argymhell bod y pedwar Cyfarfod Rhanbarth a Chyfarfod Crynwyr Cymru yn cytuno mewn egwyddor i fabwysiadu cynnig y grŵp bod elusen newydd yn cael ei chreu a bod y pum elusen bresennol yn cyfuno i ffurfio'r elusen honno.

2. Gwelwn mai'r cam cyntaf yn unig yw hwn ac rydym yn argymhell penodi grŵp i symud y cynnig hwn ymlaen.
3. Yn y cyfnod dros dro rydym yn argymhell bod pob Cyfarfod Rhanbarth yn penodi o leiaf dri Ymddiriedolwr o blith eu haelodau eu hunain, y cai un ohonynt eu penodi hefyd yn Glerc i ymddiriedolwyr y Cyfarfod Rhanbarth. Byddai tri ymddiriedolwr arall yn cael eu hychwanegu at y rhain, un o bob un o'r tri Chyfarfod Rhanbarth arall, fyddai'n rhoi i bob Cyfarfod Rhanbarth gorff ymddiriedolwyr o chwe aelod o leiaf ynghyd â thrysorydd.

Mae'r Grŵp Symud Ymlaen yn credu y bydd ein cynigion yn arwain at gydbwysedd gwell rhwng gweddi, meddwl a chymhwysiad ym mywyd y Crynwyr yng Nghymru a'r Gororau. Mae'r ffocws ar symleiddio dulliau gweithredu'r Cyfarfodydd Rhanbarth a Chyfarfod Crynwyr Cymru ac yn hwyluso esblygiad grwpiau o Gyfeillion fydd yn adlewyrchu'n well y ffocws ar groeso ysbrydol a gweithredu, yn lleol ac yn rhanbarthol.

# **Proposal and Report: summary**

## **of the Moving Forward / Symud Ymlaen Group**

The Moving Forward Group was set up in October 2019 by the four constituent Area Meetings (North Wales, Mid Wales, South Wales and Southern Marches) of Meeting of Friends in Wales (MFW) to look at ways that Quaker structures could be simplified. Two representatives were appointed from each AM and MFW and included a Trustee from each body.

The Objectives of the Moving Forwards Group were described as:-

*To consider what changes might be made to enable us to work better together in Wales, to promote relationships between Friends and to free up time and energy for spiritual life, outreach and witness in the world.*

*To explore possible options for more effective working and cooperation. These could include sharing responsibilities of Trusteeship such as property management, and policies for legal responsibilities.*

### **Challenges facing Quakers in Wales and the Marches**

- Finding Friends who are willing, able and competent to offer service especially as Trustees and Treasurers
- Management and upkeep of our extensive property portfolio
- Increased demand for compliance in many areas but particularly in financial recording and reporting for the Charity Commission and demands imposed by the Banks 'for security reasons'
- Requirement for stringent policies including Equality, Safeguarding, Risk, Health & Safety and Data Protection

There is a need to reduce the burden of administration.

### **Proposal**

Our Proposal recommends a simplification of our structures in order that Area & Local Meetings can focus on spiritual nourishment and outreach.

### **Merger of the five existing charities**

To achieve this we propose the amalgamation of the five existing charities into one new charity. The Trustees would be nominated by the Area Meetings. This has the appeal of simplicity in that it would reduce the number of charities to one whilst retaining the current structure of four Area Meetings (with their constituent Local Meetings) and would include

the responsibilities of Meeting of Friends in Wales. It would require Area Meetings to delegate to this new body, that element of their responsibilities relating to running a charity.

This would reduce the number of trustees required from approximately 30 to possibly as few as 12. In addition it would significantly simplify the financial recording and reporting with a consequential reduction in the work required of treasurers.

A Charity Commission Scheme would be required to enable the merger and transfer of ownership of assets from the current Area Meeting Charities to this new charity and would require the drafting of a scheme for the charity Commission with advice from Britain Yearly Meeting Stewardship Committee. Area Meetings would be retained, but would no longer be separate registered charities. This would reduce the number of charities from five to one and most importantly allow the Area Meetings to focus on their primary task of Spiritual Nourishment and Outreach.

We understand that the Charity Commission is keen to encourage such mergers. We should be under no illusion that this is going to be a quick fix and even if this way forward is agreed by Meeting of Friends in Wales and its four constituent Area Meetings this year it will take time to navigate the complexities involved.

We see that this is only the first step and recommend the appointment of a group to take forward this proposal.

### **An interim arrangement**

We recognise that this is going to take time and suggest that for the next triennium each Area Meeting would appoint at least three Trustees from their own membership, one of whom would also be appointed as the Clerk to Area Meeting trustees. To this would be added a further three trustees, one from each of the other three Area Meetings, giving each Area Meeting a trustee body of at least six members plus a treasurer.

This does not mean that 24 trustees would be appointed but in fact a minimum of only 12 who would form a combined group which would work together on matters which concerned all four Area Meetings such as buildings, finance and other governance matters such as policies. This would enable trustees to work together during the next triennium, learning about the situation of meetings across the whole of Wales and the Marches. It is important that this is only an interim step for one triennium while the single amalgamated charity is set up.

### **Summary of Recommendations for the Way Ahead**

1. We recommend the four Area Meetings and Meeting of Friends in Wales agree in principle to adopt the group's proposal that a new charity should be created and that the five existing charities should merge to form that charity.
2. We see that this is only the first step and recommend the appointment of a group to take forward this proposal.

3. In the interim we recommend that each Area Meeting appoints at least three Trustees from their own membership, one of whom would also be appointed as the Clerk to Area Meeting trustees. To this would be added a further three trustees, one from each of the other three Area Meetings, giving each Area Meeting a trustee body of at least six members plus a treasurer.

The Moving Forwards Group believe that our proposals will lead to a better balance between prayer, thought and application in the life together of Quakers in Wales and the Marches. The focus is on streamlining the operation of Area Meetings and Meeting of Friends in Wales and allows more easily for the evolution of groupings of Friends better to reflect a focus on spiritual hospitality and action both locally and regionally.